

Adnabod Darlunydd

Jac Jones

Sut brofiad oedd darlunio'r llyfr?

Daeth *Pobol Drws Nesaf* o feddwl anhygoel Manon Steffan Ros. Cymaint yw ei dychymyg fel y gallai yn hawdd fod wedi ysgrifennu stori am bâr o esgidiau rhedeg a dorrodd record 100 metr y byd heb neb yn eu gwisgo, neu dwrch daear a oedd yn adeiladu twmpath pridd wyneb i waered fel nad oedd neb yn gwybod ei fod yno. Na, y tro hwn roedd y stori'n ymwneud ag estroniaid gwyrdd a phorffor. *Easy peasy?* Na! Er mor wallgof oedd y syniad, roedd mewn gwirionedd yn stori hyfryd am oddefgarwch a chydabyddiaeth nad yw lliw yn cyfri.


Mae'r stori'n sôn am garedigrwydd a dealltwriaeth, a dyma sy'n ei gwneud yn bosib i Tim a Bob ddod yn ffrindiau gorau. Fe wnes i gymysgu porffor llachar a gwyrdd gwallgof i ddangos gwahaniaeth nad oedd yno mewn gwirionedd. Mae'r gath a'r ci chwe choes wedi dod yn ffrindiau, hyd yn oed – job wedi'i gwneud!

"Am gymeriadau gwych. Dwi wrth fy modd gyda nhw. Maen nhw'n fy atgoffa o fy nheulu!"

disgybl Ysgol Gynradd
Dyffryn Banw

"Dyma gamp partneriaeth awdur profiadol a darlunydd crefftus yn eu gem o lyfr. Mae stori Manon Steffan Ros a dehongliad lluniau Jac Jones yn ddeuawd perffaith."

Panel Beirniaid Tir na n-Og





Hoff lyfr
dy blentyndod?

*Mil ac Un o
Anifeiliaid
y Byd.*

liwiau, wedi'u cnoi'n rhannol. Roedd hyn yn amser cyn y teledu, consolau gemau, ffonau clyfar a McDonalds, ac felly dechreuais dynnu llun o'r hyn oedd yn fy mhen. Mewn byr amser darganfyddais y gallwn fynd i'r lleuad y ffordd honno, neu sgorio'r penalti gorau a sgoriwyd erioed i'm gwlad. Nawr mae pob llyfr rydw i'n rhan ohono yn dod o'r un pen, ac os ydw i'n gweithio'n galed arno efallai fy mod i'n gallu ei osod yn eich pen chi – dyna fy mraint i.

Hoff ffilm?

*A boy called
Sailboat.*

Pwy a wŷr, efallai am ychydig y byddwch chi'n cerdded ar y lleuad hefyd, neu'n well fyth, y byddwch yn bwy bynnag rydych chi am fod.

**Oes gyda ti gyngor ar
gyfer darpar ddarlunwyr?**

Meddylwch am yr holl lyfrau rydych chi wedi'u darllen. Meddylwch hefyd am yr holl wahanol fathau ac arddulliau o ddarluniau rydych chi wedi'u mwynhau. Fe wnaethon nhw, efallai, i chi chwerthin, teimlo'n hapus, yn drist, neu hyd yn oed ychydig yn ofnus.

Os penderfynwch yr hoffech chi fod yn ddylunydd llyfrau a darlunydd mae'n fantais

Hoff raglen
deledu?

*C'mon
Midffild.*

bod mor amryddawn ag y gallwch. Mae pob syniad yn cychwyn fel lle gwyn gwag; mae hynny'n dal i fy nychryn, hyd yn oed ar ôl yr holl amser. Eich her fydd creu rhywbeth i wneud i'r darlunydd fynd "Waw!" Os y gallwch chi hefyd fynd "Waw!" rydych yn enillydd. Ewch amdani!

Beth sy'n
dod â gwen?

Gwên arall.



Hoff air?

*Serendipedd /
serendipity.*

Dewis o
superpower?

*Hedfan a glanio
yn saff.*

Hoff swydd,
heblaw
darlunydd?

*Bod yn daid
(i 6).*

Pobol Drws Nesaf
ISBN 9781784617233
Y Lolfa £3.99

Top tip i
ddarpar
ddarlunwyr?
Mwynhau'r fraint.

Hoff gymeriad o
fyd llyfrau plant?

*Y ci defaid yn
Un o Fil (Meinir
Pierce Jones).*

**Dwed ychydig
amdanat a sut ddoist
ti'n ddarlunydd.**

Amser maith yn ôl, pan oeddwn yn blentyn, dim ond dau ddymuniad oedd gen i ar gyfer fy nyfodol –

bod yn ofodwr (*astronaut*) neu gael gwisgo crys rhif 9 i dîm pêl-droed rhyngwladol Cymru. Ni chyflawnais y naill na'r llall, ond darganfyddais ddrôr ddirgel yn nhŷ fy nain a oedd yn llawn pensiliau o wahanol

Hoff le?

*Barclodiad
y Gawres,
Ynys Môn.*